Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf.DLl 439

**Amseru: Unigol**

**Teitl:** Cyfraniad at Gynhadledd Gorchmynion Amddiffyn Cymru Gyfan

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**
Cynhaliodd Heddlu Dyfed-Powys Gynhadledd Gorchmynion Amddiffyn Cymru Gyfan ym Mharc y Scarlets ar 18 Tachwedd 2025.
Gofynnwyd i'r Comisiynydd gyfrannu 762.00 tuag at gost y gynhadledd.

Roedd nodau'r gynhadledd hon yn cynnwys cynyddu gwybodaeth swyddogion a staff yr heddlu mewn perthynas â Gorchmynion Amddiffyn, gan gynnwys sut a ble i'w gweithredu.

Arfau cyfreithiol ar gyfer diogelu unigolion rhag niwed yw Gorchmynion Amddiffyn. Maen nhw'n gwarchod unigolion rhag cam-drin, aflonyddu, neu drais drwy ddarparu rhwystr cyfreithiol rhwng y dioddefydd a'r troseddwr drwy osod cyfyngiadau i'w atal rhag mynd at y dioddefydd neu gysylltu ag ef/hi.

Fe wnaeth y gynhadledd alluogi dysgu i gael ei rannu ar draws heddluoedd Cymru, gan gynnwys mabwysiadau arfer gorau i gyflenwi'r cymorth mwyaf effeithiol ar gyfer unigolion mewn perygl.

Mae'r gweithgarwch hwn yn cyd-fynd ag un o flaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu, sef Cefnogi Dioddefwyr ac Atal Erledigaeth.

**Argymhelliad:**
Cyfrannu £762.00 tuag at gostau cynhadledd Gorchmynion Amddiffyn Cymru Gyfan o gyllideb Deddf Gwerthu Eiddo y Daethpwyd o Hyd Iddo.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 17/12/2025**